**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3192

# GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009

**1.** Daw'r briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y map a adneuwyd.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn:—

Mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y map a adneuwyd" ("*the deposited map*")

yw'r map sy'n dwyn y Rhif HA 10/2 WAG 3 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009", wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU) Llywodraeth Cynulliad Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

(ii) ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*")

yw'r briffordd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*")

yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40).

**4.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Rhagfyr 2009 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

*J Collins*
Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

3 Rhagfyr 2009